The CO-OPERATIVE BANK

Ein Polisi Moesegol

Dyma Bolisi Moesegol y Banc Cydweithredol a smile.co.uk Mae wedi ei seilio ar ymgynghori helaeth â'n cwsmeriaid, gan adlewyrchu eu pryderon moesegol ynghylch sut y dylid buddsoddi eu harian a sut na ddylid. Mae hefyd yn fframwaith i'r ffordd y dewiswn bartneriaid a chyflenwyr.

Hawliau Dynol

Trwy ein buddsoddiadau, ceisiwn gefnogi egwyddorion y Datganiad Bydeang Hawliau Dynol.
Yn gyson â hyn, ni fyddwn yn buddsoddi yn y canlynol:

- unrhyw lywodraeth neu fusnes sy'n methu parchu hawliau dynol sylfaenol o fewn eu cylch dylanwad
- unrhyw fusnes y mae eu cysylltiadau â threfn ormesol yn achos pryder cyson.

Y Fasnach Arfau

Ni fyddwn yn buddsoddi mewn unrhyw fusnes sy'n chwarae rhan yn y canlynol:

- cynhyrchu neu drosglwyddo arfau i lywodraethau gormesol
- cynhyrchu offer arteithio neu offer eraill sy'n cael eu defnyddio i dreisio hawliau dynol.

Cyfrifoldeb Corfforaethol a Masnachu Bydeang

Pleidiwn gefnogaeth i Gytundebau Sylfaenol y Corff Llafur Rhyngwladol. Yn gyson â'r rhain, byddwn yn ymdrechu i gefnogi busnesau sy'n mabwysiadu agwedd gyfrifol o ran:

- masnachu teg
- hawliau llafur o fewn eu gweithrediadau eu hun a thrwy eu cadwyni cyflenwi mewn gwledydd datblygol.

Ni fyddwn yn cefnogi:

- arferion marchnata anghyfrifol mewn gwledydd datblygol
- creu cynhyrchion tybaco
- hapfasnachu mewn arian cyfred.

Addasu Genynnol

Ni fyddwn yn buddsoddi mewn busnesau sy'n chwarae rhan yn natblygiad organeddau wedi eu haddasu'n enynnol, lle, yn fwyaf arbennig, y mae'r agweddau canlynol yn amlwg:

- rhyddhau organeddau felly'n ddireolaeth i'r amgylchedd
- unrhyw ardrawiad negyddol ar wledydd datblygol: yn arbennig, gorfodi technolegau 'Terminator'
- patentu, ac yn arbennig patentu gwybodaeth arbenigol gynhenid
- clonio, ac yn arbennig clonio anifeiliaid at ddibenion anfeddygol.

Menter Gymdeithasol

Byddwn yn ymdrechu i gefnogi elusennau ac amrywiaeth eang y cyrff sy'n weithgar yn y sector Menter Gymdeithasol, gan gynnwys:

- cwmnïau cydweithredol
- undebau credyd
- blaengarwch cyllid yn y gymuned.

Ardrawiad Amgylcheddol

Yn gyson ag egwyddorion ein Datganiad Cenhadaeth Ecolegol, ni fyddwn yn buddsoddi mewn unrhyw fusnesau y mae eu gweithgarwch creiddiol yn cyfrannu at y canlynol:

- newidiadau hinsawdd bydeang, trwy echdynnu neu gynhyrchu tanwyddau ffosil
- cynhyrchu cemigion sy'n aros yn gyson yn yr amgylchedd ac sydd â chyswllt â phryderon iechyd tymor-hir
- cynaeafu adnoddau naturiol, gan gynnwys coed a physgod, mewn ffordd na ellir mo'i chynnal.

At hynny, byddwn yn ceisio cefnogi busnesau sy'n cyfrannu at y canlynol:

- ailgylchu a rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy
- ynni adferol ac effeithlonrwydd ynni
- cynhyrchion a gwasanaethau naturiol cynaliadwy, gan gynnwys coed a chynnyrch organaidd
- mynd ar drywydd cynaliadwyedd ecolegol.

Lles Anifeiliaid

Ni fyddwn yn buddsoddi mewn unrhyw fusnes sy'n chwarae rhan yn y canlynol:

- defnyddio anifeiliaid i brofi cynhyrchion neu gynhwysion cosmetig neu ddomestig
- dulliau ffermio dwys: er enghraifft, ieir mewn cewyll i gynhyrchu wyau
- chwaraeon gwaed sy'n golygu defnyddio anifeiliaid neu adar i ddal, ymladd neu ladd ei gilydd
- y fasnach ffwr.

At hynny, byddwn yn ymdrechu i gefnogi busnesau sy'n chwarae rhan yn y canlynol:

- datblygu dulliau gweithredu eraill yn lle arbrofi gydag anifeiliaid
- dulliau ffermio sy'n hybu lles anifeiliaid: er enghraifft, ffermio awyr agored.

Ymgynghori â Chwsmeriaid

- Byddwn yn ailgloriannu barn ein cwsmeriaid am y materion hyn ac eraill yn rheolaidd, ac yn datblygu'n Polisi Moesegol yng ngoleuni hynny.

- O bryd i'w gilydd, byddwn yn ceisio cynrychioli barn ein cwsmeriaid am elfennau'n Polisi Moesegol a materion moesegol eraill, trwy, er enghraifft, ein gweithgareddau ymgyrchu.

- Ar brydiau, byddwn yn penderfynu ar agweddau penodol ar ein busnes gan roi sylw i ystyriaethau moesegol nad ydynt wedi eu cynnwys yn ein Polisi Moesegol.

Am wybodaeth bellach ynghylch ein Polisi Moesegol, ymwelwch â gwefan y banc:
www.co-operativebank.co.uk/ethics/ethicalpolicy.html